# LLYWODRAETH CYMRU

# Datganiad Gwrandawiad Archwiliad

## Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
## Gwynedd a Môn

## Sesiwn Gwrandawiad 8: Ynni Adnewyddadwy

## 15th Medi 2016

1. **A yw polisïau ADN1 a ADN2 yn darparu mesurau diogelu priodol i warchod tirwedd yr ardaloedd?**

   Mater i'r awdurdod lleol i'w ateb yw hwn

2. **A yw'r cynllun yn darparu fframwaith priodol ar gyfer gwireddu potensial yr ardal i gynhyrchu ynni adnewyddadwy (polisi PS7)?**

   Dywed Polisi PS7:

   *"Bydd y Cynghorau'n ceisio sicrhau bod ardal y Cynllun yn cyflawni ei botensial fel ardal arweiniol ar gyfer mentrau wedi'u seilio ar dechnolegau adnewyddadwy neu garbon isel …"*

   Mae'r polisi wedyn yn mynd yn ei flaen i restru nifer o ffynonellau ynni posibl. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd y polisïau manwl yn helpu ac yn sbarduno cynlluniau o'r fath, yn enwedig mewn ardaloedd y tu allan i ffiniau aneddiadau.

   a. **A oes cyfiawnhad dros fabwysiadu'r un ymagwedd ym mholisi ADN1 i ddynodiadau tirwedd lleol (Safleoedd Tirwedd Arbennig) â dynodiadau cenedlaethol?**

      Nac oes.  Mae PCC (paragraff 5.3.11) yn cyfeirio at ddynodiadau anstatudol, gan gynnwys Ardaloedd Tirwedd Arbennig.  Nid oes cyfeiriad at "leoliad" ATA yn PCC.  Mae'r paragraff yn cloi trwy ddweud na ddylai dynodiadau o'r fath gyfyngu'n afresymol ar ddatblygiad derbyniol.  Mae lle i holi felly pam mae dynodiadau tirwedd lleol fel ATA yn cael eu trin yr un ffordd â dynodiadau Rhyngwladol a Chenedlaethol, gan gynnwys eu lleoliad (Polisi ADN1, meini prawf 2 a 3).

      Mae PCC (paragraffau 12.8.7 – 12.8.9) yn cyfeirio at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r system gynllunio i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a charbon isel.  Rhoddir cydnabyddiaeth hefyd i warchod ardaloedd dynodedig (paragraff 12.8.10) er na chyfeirir at ddynodiadau lleol fel ATA.

   b. **A ydy'r ymagwedd ym mholisi ADN2 i ddatblygu y tu allan i ffuniau datblygu yn addas?**

      Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn y Newidiadau â Ffocws (NF33) pam nad yw canlyniad yr asesiad o ynni solar wedi'i gynnwys yn y cynllun.

      Croesewir y Polisi ADN1A newydd (Atodiad C – Newidiadau i'r adran Technoleg Ynni Adnewyddadwy yn y Cynllun Adnau, Gorffennaf 2016) sy'n

nodi 36 o 'ardaloedd cyfle' – Ffermydd Ynni Haul.  Mae'r ymagwedd hon sy'n canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd ar gyfer ynni solar yn adlewyrchu llythyr Llywodraeth Cymru at y Prif Swyddogion Cynllunio (10 Rhagfyr 2015) sy'n dweud, ynghylch Awdurdodau Cynllunio Lleol:

" *nad oes unrhyw un o'r Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru wedi cymryd canlyniadau'r Asesiadau Ynni Adnewyddadwy a llunio polisïau lleol (gan gynnwys dyraniadau neu ardaloedd chwilio) ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel ar raddfa awdurdod lleol (5MW - 25MW)."*

Mae'r awdurdod wedi cynnal asesiad ac wedi defnyddio'r canlyniadau i lunio polisi.  Mae angen i'r meini prawf sy'n cefnogi'r polisi er mwyn sicrhau y cynhyrchir y lefel ofynnol o ynni yn yr ardaloedd cyfle.

Fodd bynnag, efallai bod ffurfiau eraill ar ynni adnewyddadwy, fel cynlluniau dŵr bach neu fiomas allai fanteisio ar adnoddau naturiol a/neu weithgareddau ffermio/masnachol.  Nid yw'n glir pam nad yw Polisi ADN2 yn hwyluso hynny y tu allan i ffiniau aneddiadau.  Yn enwedig o gofio mai mewn ardaloedd gwledig y byddai'r mathau hynny o gynhyrchu'n debygol o ddigwydd.  Byddai'n synhwyrol llunio set o feini prawf ar gyfer ystyried cynlluniau posibl, yn hytrach na mynd am drywydd sydd i bob golwg yn bolisi mwy cyfyngol.  Cyfeiriodd y llythyr at y Prif Swyddogion Cynllunio (10 Rhagfyr 2015) at amrywiaeth o dechnolegau adnewyddadwy, fel ag y dywed PCC (paragraff 12.9.2):

*" … cynnal asesiad o botensial yr holl adnoddau ynni adnewyddadwy a chyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardal, a dylent gynnwys polisïau priodol yn eu cynlluniau datblygu.*"

Dylai'r awdurdod lleol esbonio pam y byddai technolegau bach eraill yn amhriodol y tu allan i ffiniau aneddiadau, ac os na, pa feini prawf y gellid eu defnyddio i sicrhau bod dyniadau penodol yn cael eu gwarchod tra'n annog cyfleoedd i ddatblygu ynni adnewyddadwy.

**3. A fydd polisi CYFF4 yn effeithiol wrth ddylanwadu ar ddulliau rheoli carbon datblygiad newydd?**

Mater i'r Awdurdod Lleol ddelio ag ef yw geiriad ac effeithlonrwydd y polisi.  Fodd bynnag, mae golwg fras ar Bolisi PCYFF4 yn awgrymu ei fod yn bositif ac yn galonogol iawn, er o fwrw golwg fanylach arno, gwelir efallai nad oes ganddo'r 'dannedd' i sicrhau ei effeithiolrwydd.  Nid yw'n rhagnodi nac yn chwilio.  Ymddengys ei fod yn hytrach yn rhestru gwahanol fathau o dechnolegau ac

opsiynau eraill, a hynny mewn ffordd fwy caniataol.  Efallai bod diben ystyried a ddylid tynhau'r geiriad i sicrhau cyflawni.

**4. A yw'r Cynllun yn darparu dulliau eglur a phriodol ar gyfer gweithredu a monitro'r polisïau Ynni Adnewyddadwy?**

Mater i'r awdurdod lleol i'w ateb yw hwn.  Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon helpu'r awdurdod i gaboli'r dangosyddion monitro, os ystyrir bod hynny'n ddoeth.